
Taflen Wybodaeth 2 i Gleifion


Adran 3
Deddf Iechyd Meddwl 1983

Thanks to easy on the i for the use of their image bank © LYPFT
www.easyonthei.nhs.uk



Eich Enw

……



Y clinigydd sydd yn gyfrifol am eich asesiad a'ch triniaeth yw:

……

Maent yn arbenigwyr mewn iechyd meddwl.



Rydych wedi dod i ysbyty iechyd meddwl o'r enw

……

Rydych ar ward ……..

Rhif Ffôn ……

Mental Health Act 1983

Rydych wedi cael eich cadw o dan Adran 2 y Ddeddf Iechyd Meddwl .



Dechreuodd eich cadw ar

.....



Mae'r daflen hon i'ch helpu chi ddeall beth mae'n ei olygu.

Dylai aelod o staff cymwys ddarllen drwy'r daflen hon gyda chi.

Byddant yn gallu ateb unrhyw un o'ch cwestiynau.

Pam wyf yn yr ysbyty?



Mae dau feddyg yn dweud eich bod yn sâl, oherwydd

.....




Mae gweithiwr proffesiynol iechyd meddwl cymeradwy wedi cytuno gyda'r meddygon.

Maent wedi penderfynu bod angen i chi fod yn yr ysbyty ar hyn o bryd.



Hyd yn oed os yw'r cadw'n anghywir, bydd yn parhau am rŵan.



Bydd staff y ward yn ceisio darganfod pam eich bod yn sâl drwy asesiadau.


Mental Health Act 1983

Gallwch gael eich cadw yn yr ysbyty oherwydd eich bod o dan Adran 3 y Ddeddf Iechyd Meddwl 1983.

Mae'r Ddeddf Iechyd Meddwl, 1983 yn gyfraith.

Rydych yng nghanol eich gofal a'ch triniaeth.

Mae'n rhaid i chi gael digon o wybodaeth i wneud penderfyniad gwybodus am eich gofal.



Fodd bynnag mae'r Ddeddf Iechyd Meddwl yn caniatau i chi gael eich trin heb gydsyniad os ydych yn cael eich cadw.

Gall hyn ond ddigwydd os yw'r driniaeth ar gyfer eich problem iechyd meddwl ac yn cael ei ragnodi gan eich clinigydd cymeradwy.


Gallwch ofyn i'ch IMHA neu eich tîm gofal am fwy o wybodaeth.

Pa mor hir y bydd angen i mi aros yn yr ysbyty?




Gallwch gael eich cadw yn yr ysbyty am hyd at 6 mis.

Os ydych angen aros yn hirach efallai bydd eich cadw'n cael ei adolygu.




Os ydych yn well cyn 6 mis, gall eich meddyg eich rhyddhau.

Gall hyn olygu y gallwch fynd adref.



Os ydych eisiau gadael yr ysbyty am gyfnod byr, siaradwch â'ch meddyg.

Mae angen iddynt benderfynu os yw'n ddiogel.




Os yw'r meddyg yn cytuno, byddant yn dweud ble y cewch fynd a faint o gloch mae'n rhaid i chi fod yn ôl

Gelwir hyn yn absenoldeb Adran 17.




Os ydych yn ceisio gadael cyn bod y meddyg yn dweud ei fod yn iawn, byddwch yn cael eich stopio.



Os ydych yn gadael yr ysbyty cyn bod eich meddyg yn dweud ei fod yn iawn, bydd yn rhaid i chi ddod yn ôl.

Pa help fyddaf yn ei gael yn yr ysbyty?



Bydd y staff yn yr ysbyty yn gallu cynnig triniaeth i'ch helpu gyda

……



Efallai y bydd yn rhaid i chi gymryd tabledi neu meddyginiaeth.




Bydd gennych gydlynydd gofal a fydd yn helpu i ysgrifennu cynllun gofal a thriniaeth gyda chi.

Eich cydlynydd gofal yw:

……..

Mae gennych **HAWL** i eiriolwr annibynnol iechyd meddwl a elwir weithiau'n IMHA.




- Gallant eich helpu i ddeall eich hawliau a'ch opsiynau triniaeth.
- Gallant eich helpu i gael cefnogaeth a chynrychiolaeth gyfreithiol.
- Gallant eich helpu i wneud cwyn.
- Nid ydynt yn gweithio I'r ysbyty a byddant yn siarad ar eich rhan.
- Mae'r gwasanaeth hwn am ddim ac mae'n gyfrinachol.

Os hoffech IMHA, siaradwch â'r staff, a all roi mwy o wybodaeth i chi.

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Mae Cod Ymarfer Cymru'n rhoi cyngor i staff am y Ddeddf Iechyd Meddwl.


Mental Health Act 1983
Code of Practice
for Wales Review
Revised 2016



Mae'n rhaid iddynt feddwl am yr hyn mae'r cod yn ei ddweud wrth wneud penderfyniadau am eich gofal.

Gallwch ofyn i staff i gael edrych ar y copi neu ewch ar:http://gov.wales/docs/dhss/publications/160920mentalacten.pdf

Beth fydd yn digwydd nesaf?



Os nad ydych yn cytuno gyda'ch cadw o dan Adran 3 gallwch ofyn i gael eich rhyddhau o'r ysbyty.

Mae taflen arall yn egluro sut allwch chi wneud hyn.



Dylai eich teulu a'ch ffrindiau ymweld â chi pan rydych yn yr ysbyty.

Fel arfer gallwch ysgrifennu llythyrau a pharseli a'u derbyn gan unrhyw un.




Mae'r Ddeddf Iechyd Meddwl yn rhoi'r pŵer i Reolwyr Ysbyty stopio eich llythyrau neu barseli os oes rhywun yn gofyn i beidio â'u derbyn.

Os bydd hyn yn digwydd mi fyddwch yn cael gwybod yn ysgrifenedig.



Bydd eich gofal a'ch triniaeth yn cael ei drafod mewn cyfarfod wythnosol a elwir yn rownd ward.

Bydd cyfarfodydd mwy a elwir yn adolygiadau



Fe ddylai pawb sydd ynghlwm â'ch gofal a'ch triniaeth gael eu gwahodd i'ch adolygiad.

Gall hyn gynnwys eich teulu a/neu ofalwyr os ydych yn dymuno.

Mae'r ddau gyfarfod hyn yn amser da i siarad am eich:

- Absenoldeb
- Meddyginiaeth
- Problemau
- Teimladau



Gellir adnewyddu eich adran 3 am 6 mis arall ac yna bob blwyddyn os oes angen.

Penderfynir ar hyn mewn adolygiad cyn bo'r 6 mis yn dod i ben.

Rhoi gwybod i'ch perthynas agosaf

Bydd taflen yn egluro hyn yn cael ei roi i'r perthynas agosaf.


Rydym yn deall mae'ch perthynas agosaf yw

……..


Os nad ydych eisiau iddynt gael y wybodaeth hon dywedwch wrth y unigolyn sydd yn gyfrifol am y ward.

Gwneud Cwyn

Os ydych yn anhapus gyda'ch gofal tra ydych yn yr ysbyty gallwch gwyno.



Os ydych yn anhapus ynghylch y ffordd rydych yn cael eich trin gallwch siarad gyda'ch tîm gofal.



Gallwch hefyd siarad â'ch IMHA a all eich helpu i wneud cwyn.



Os hoffech fwy o wybodaeth ynghylch gwneud cwyn mae yna daflen arall i'ch helpu.